VICTIM SUPPORT

# YMDDYGIAD GWRTH-GYMDEITHASOL

Gwybodaeth ynglŷn â sut i wneud atgyfeiriadau i'r swyddog cymorth ymddygiad gwrthgymdeithasol.

**victimsupport.org.uk**

14

## Beth yw ymddygiad gwrthgymdeithasol?

Caiff ymddygiad gwrthgymdeithasol (ASB) ei ddiffinio fel gweithgaredd annerbyniol sy'n peri ofn, aflonyddwch neu drallod i unigolyn, i'w cymuned neu i'w hamgylchedd. Mae hefyd yn cynnwys ofn ynglŷn â throseddu neu bryder am ddiogelwch y cyhoedd, anrhefn cyhoeddus neu niwsans cyhoeddus.

Os ydy ansawdd eich bywyd yn cael ei effeithio'n wael gan bobl eraill yn eich cymuned, yna mae'n bosib eich bod yn dioddef yn sgil ymddygiad gwrthgymdeithasol. Mae gennym brofiad o gefnogi pobl sy'n delio â:

- niwsans sŵn
- anghydfod rhwng cymdogion
- ymosodiadau geiriol
- ymddygiad bygythiol
- aflonyddu a brawychu
- fandaliaeth
- difrod troseddol.

Efallai y byddwch yn meddwl bod digwyddiad yn un bach neu nad yw'n bwysig ar y cychwyn, ond mae ymddygiad gwrthgymdeithasol yn gallu parhau dros gyfnod hir, a mynd yn ddifrifol iawn.

Nid yw pob ymddygiad gwrthgymdeithasol yn cael ei ystyried yn drosedd, ond mae llawer yn drosedd, neu'n gallu datblygu'n drosedd. Gallwn ni'ch helpu chi hyd yn oed os nad yw'r heddlu'n gysylltiedig, ond fydd dim byd yn newid os na fyddwch chi'n gweithredu. Gallwn ni roi'r wybodaeth a'r gefnogaeth sydd eu hangen arnoch er mwyn newid pethau.

## Riportio

I lawer o bobl sy'n profi ymddygiad gwrthgymdeithasol, mae gwybod sut i ddechrau delio â'r peth yn broblem yn aml.

Felly wrth bwy y dylwn i adrodd am hyn? Mae'n bwysig eich bod yn dweud wrth y bobl iawn beth sy'n digwydd. Gallwch chi riportio wrth:

- eich landlord, sydd â dyletswydd i wneud yn siŵr nad yw tenantiaid yn ymddwyn mewn modd sy'n torri eu cytundeb tenantiaeth
- yr adran iawn yn eich cyngor lleol, e.e. tai, iechyd yr amgylchedd neu dîm ymddygiad gwrthgymdeithasol
- yr heddlu, os ydych chi'n meddwl bod trosedd wedi'i chyflawni.

Os byddwch chi'n profi ymddygiad gwrthgymdeithasol, mae'n bosib y bydd angen i chi helpu i ddarparu tystiolaeth cyn y gellir gweithredu, ee cadw dyddiadur o'r pethau sy'n digwydd. Efallai y gofynnir i chi gael offer recordio yn eich eiddo ar gyfer niwsans sŵn. Mae'n bosib y bydd rhaid i chi alw'r heddlu ar **101** neu hyd yn oed **999** os yw'n argyfwng.

Mae'n cymryd llawer o amser ac egni i ddal ati i wneud hyn a byddwn ni'n eich cefnogi chi. Yn aml, does dim datrysiad cyflym, ond rydyn ni yma i'ch helpu chi trwyddi unwaith y byddwch chi wedi gwneud y penderfyniad anodd i ddechrau riportio.

## Victim Support

Victim Support ydy'r elusen annibynnol ar gyfer pobl y mae troseddu'n effeithio arnynt yng Nghymru a Lloegr. Rydym yn cefnogi pobl sydd wedi dioddef yn sgil unrhyw drosedd neu ymddygiad gwrthgymdeithasol. Mae ein gwasanaethau yn rhad ac am ddim, yn gyfrinachol, yn ddiduedd ac ar gael i bawb, does dim ots a yw'r drosedd wedi'i hadrodd ai peidio, na phryd digwyddodd y drosedd.

## Beth gall swyddog cymorth ymddygiad gwrthgymdeithasol ei gynnig?

Rydym yn cefnogi unigolion neu deuluoedd cyfan lle bo angen – p'un ai ydynt yn dioddef yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol. Mae'n anodd delio ag ymddygiad gwrthgymdeithasol a gallwn ni eich helpu chi i ymdopi â'r effeithiau drwy:

- ddarparu cefnogaeth dros y ffôn a wyneb yn wyneb – mae'n help cael rhywun i siarad â nhw
- siarad â'r gwahanol asiantaethau sy'n ymwneud â'r achos ar eich rhan
- rhoi sicrwydd i chi eu bod yn gwrando arnoch chi ac y byddant yn gweithredu os oes modd
- rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i chi ynglŷn â'r hyn sy'n cael ei wneud
- eich helpu chi i ddeall y broses o fynd i'r afael â throseddau ac ymddygiad gwrthgymdeithasol, sy'n gallu cymryd cryn dipyn o amser
- rhoi cyngor i chi ynglŷn â'ch diogelwch personol a diogelwch eich cartref
- eich helpu chi gyda phroses gyfryngu er mwyn ceisio datrys y broblem

- eich helpu chi i gysylltu ag asiantaethau a gwasanaethau eraill sydd hefyd yn gallu cynnig cymorth
- eich cefnogi chi os bydd achos yn mynd i'r llys.

## Sylwadau gan ddefnyddwyr y gwasanaeth

***"Roedd gweithwyr cymorth ymddygiad gwrthgymdeithasol yn rhoi gwybod i mi am bethau nad oeddwn i'n eu gwybod ac roeddent bob amser yn ofalgar tuag ataf fi."***

***"Roeddwn i'n rhy nerfus i ffonio'r patrôl sŵn, gwnaeth y cymorth ymddygiad gwrthgymdeithasol fy annog i ffonio ac i adrodd am yr hyn oedd yn digwydd."***

***"Roedd ofn arna i ond roedd yn teimlo'n dda bod gen i gefnogaeth wrth gefn ac nad oeddwn i'n teimlo fy mod ar fy mhen fy hun mwyach. Roedd hynny'n golygu llawer i mi."***

## Ble i fynd i gael cymorth:

Rydym yn elusen **annibynnol** sy'n cynnig cymorth **cyfrinachol am ddim** i bobl y mae troseddau a digwyddiadau trawmatig yn effeithio arnynt.

I gael gwybodaeth a chymorth, cysylltwch â ni drwy:

- ffonio: Supportline **08 08 16 89 111**
- defnyddio ein gwasanaeth sgwrsio byw 24/7: **victimsupport.org.uk/live-chat**
- defnyddio BSL: **victimsupport.org.uk/bsl**
- Ar-lein: **victimsupport.org.uk**

I gael gwybod sut gallwch chi'n helpu ni, ewch i **victimsupport.org.uk/get-involved**

**@VictimSupport**

**VictimSupport**

**victimsupport_uk**

**Linkedin.com/company/victim-support**

Cyhoeddwyd gan Victim Support
Llywydd EHB Y Dywysoges Frenhinol

Victim Support, Llawr Gwaelod, Adeilad 3, Parc Busnes Dwyreiniol, Lôn Wern Fawr, Pentref Llaneirwg, Caerdydd CF3 5EA
Ffôn: 020 7268 0200

Cofrestriad elusen: 298028 Rhif cwmni: 2158780
Cofrestrwyd yn Lloegr. Cyfyngedig trwy warant.
Swyddfa gofrestredig fel uchod.

Ebrill 2024 | P2882 © 2024 Victim Support